

Cyngor Cymuned Llanegryn Community Council

Clerc: Mr Huw T. Jones, Henllys, Mallwyd, Machynlleth, Powys. SY20 9HS.
E bost; Cyngorllanegryn@outlook.com; Ffôn: 07974795778

21ain Ebrill 2025

Annwyl Gyfaill

**CYNHELIR CYFARFOD BLYNYDDOL CYNGOR CYMUNED LLANEGRYN Nos
Lun yr 28ain Ebrill 2025 am 7.30pm** yn y Neuadd, Llanegryn.

Cysyllwch gyda mi os oes unrhyw ymholiad

Edrychaf ymlaen i'ch gweld.

Yn Gywir,

Huw T Jones

CLERC

.....

AGENDA

1. Gair o groeso, a sylwadau agoriadol y Cadeirydd.

Derbyn ymddiheuriadau a gwahodd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar faterion sydd ar yr agenda.

2. Cyfle i dderbyn cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda. (Bydd angen cysylltu gyda'r Clerc ymlaenllaw.)

3. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 4ydd o Fawrth – gweler yn atodol.

4. Materion yn codi,

a) Neuadd Llanegryn, nodi'r diweddaraf.

b) Gardd Goffa – nodi'r diweddaraf, a'r materion canlynol;

- Agoriad swyddogol - **Nos Wener 20fed Mehefin.**
- Gwaith hau hadau/ plannu blodau
- Arwyddion i'r Ardd Goffa
- Rheolau claddu llwch

c) Llwybr sy'n arwain at y cae chwarae – nodi'r diweddaraf.

d) Llywodraethwyr Ysgol Craig yr Aderyn – cais am gynrychiolydd

e) Toiledau Llanegryn.

5. Ethol Swyddogion 2025-26.

a) Cadeirydd

b) Is- Gadeirydd

6. Penderfynnu ar delerau a chostau Clerc 2025-26

7. Cadarnhau dyddiadau gweddill cyfarfodydd Cyngor Llanegryn ar gyfer 2025/26.

8. Derbyn ffurflenni cofrestr buddiannau wedi eu cwblhau gan Gynghorwyr.

Hefyd mabwysiadu cod ymddygiad, cadarnhau rheoliadau arianol/sefydlog, asesiad risg a'r cofrestr asedau (sydd wedi eu dosbarthu ymlaenllaw neu ar ein gwefan)

Hefyd mabwysiadu y polisiau eraill – pryderon a chwynion, cyfle cyfartal, amgylcheddol, bioamrywiaeth, diogelu data a rhyddid gwybodaeth (ar y wefan)

9. Cynrychiolaeth y Cyngor Cymuned **ar bwylgorau / sefydliadau allanol** – Un Llais Cymru, Neuadd Llanegryn ayyb. Ethol neu ail-ethol cynrychiolwyr o'r Cyngor.

10. Materion Cynllunio

NP5/64/195 – Gosod pwmp gwres ffynhonell aer yn 32 Maesegryn, Llanegryn.

(hwn eisoes wedi ei ddosbarthu a'r Cyngor yn gefnogol)

11. Materion Cyllid.

a) **Cyfrifon 2024-25** wedi eu paratoi gan y Clerc - i'w cyflwyno i'r Cynghorwyr. Maent eisoes wedi bod trwy law yr Archwilydd mewnol.

b) Mandate y Banc – derbyn diweddariad.

c) Anfonebau i'w talu.

- Archwilio Cymru - ffioedd 22/23 a 23/24
- CR Plumbing – gwaith yn toiledau Llanegryn
- Planhigion yr Ardd Goffa

d) Ystyried unrhyw geisiadau am arian

- Ambiwllans Awyr Cymru – derbyn diweddariad

12 .Gohebiaeth

a) Dyddiadau hyfforddiant Un Llais Cymru/cynllun hyfforddiant y Cyngor

b) Ceisiadau Cronfa Huw Owen

c) Gwasanaeth bws – nodi'r gohebiaeth

13. Unrhyw fater arall